

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Atgenhedlu a Gynecoleg
Cymru, Abertawe

Dyddiad arolygu: 6 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym..... | 7 |
| | Ansawdd profiad y claf | 8 |
| | Darparu gofal diogel ac effeithiol | 13 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 17 |
| 4. | Beth nesaf? | 20 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol | 21 |
| | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 22 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella..... | 23 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Atgenhedlu a Gynecoleg Cymru, Abertawe ar 6 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, un fel prif arolygydd ac un adolygwr cymheiriaid clinigol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod gan Ganolfan Atgennedlu a Gynecoleg Cymru, Abertawe drefniadau ar waith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion a oedd yn ymweld â'r clinig.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am eu profiadau
- Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio
- Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau da ar waith
- Roedd y cofnodion a welwyd o safon dda ac yn cael eu storio'n gronolegol
- Roedd y broses gyfathrebu rhwng y rheolwyr a'r staff yn effeithiol
- Roedd y staff yn gallu cael gafeael ar yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod hygyrchedd i bob claf.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Atgenghedlu a Gynecoleg Cymru, Abertawe (y clinig) wedi'i chofrestru i ddarparu clinig annibynnol ar gyfer ymgynghoriadau a chynllunio pob math o driniaethau ffrwythlondeb modern yn Uned 4, Parc Busnes Penllergaer, Abertawe, SA4 9JH. Ystyrir bod y lleoliad hwn yn is-safle prif gyfleuster y darparwr yn Llantrisant.

Dim ond gwasanaethau gofal dydd mae'r clinig yn eu darparu.

Cafodd y clinig ei gofrestru am y tro cyntaf ar 10 Medi 2018.

Mae'r clinig yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dwy nyrs a dau dderbynydd. Mae staff o'r safle yn Llantrisant hefyd yn gweithio yn y lleoliad hwn os oes angen.

Darparwyd amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Ymgynghoriadau meddygol cychwynnol a dilynol
- Cynlluniau ar gyfer triniaethau i gynnwys: sganiau gan ynysu'r ofarïau; sganio olrhain ffoliglaidd; sganiau beichiogrwydd; dadansoddi semen.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Rhoddodd y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd trefniadau ar waith hefyd i'r cleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y cleifion i gwblhau holiadur AGIC er mwyn cael eu barn ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y clinig. Cwblhawyd 12 o holiaduron gan bobl a oedd wedi bod yn gleifion yn y clinig am gyfnodau yn amrywio o lai na chwe mis i bum mlynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol a nododd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion ei darllen a mynd â hi adref, ar ffurf taflenni yn y dderbynfa ac ar ffurf taflenni a roddwyd iddynt yn ystod ymgynghoriadau, am sut y gallant gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae gan y clinig wefan hefyd sy'n nodi'r gwasanaethau a gynigir. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd a oedd yn ymwneud â ffitrwydd, byw'n iach nac iechyd meddwl. Gwnaethom gynghori'r clinig i ystyried darparu gwybodaeth am y pynciau hyn.

Urddas a pharch

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff yn y Ganolfan. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnynt. Gwnaeth y cleifion hefyd ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth. Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol yn yr holiaduron:

"Mae'r holl staff nyrsio rydym wedi'u gweld wedi bod yn wych. Hefyd mae staff y dderbynfa bob amser yn groesawgar ac yn gyfeillgar iawn"

"Mae'r staff bob amser wedi bod yn gyfeillgar ac yn barod i wrando. Nid wyf wedi teimlo nad oedd fy mhryderon i'n bwysig o gwbl"

Roedd arwydd i'w weld yn y dderbynfa yn hysbysu'r cleifion y gallent ddefnyddio ystafell petai angen iddynt gael trafodaeth gyfrinachol. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion o'u hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd. Defnyddir hebryngwyr er mwyn diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan gaiff y claf ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Yn ystod ein hymweliad, nid oedd unrhyw apwyntiadau gyda chleifion wedi'u trefnu yn y clinig. Fodd bynnag, dangosai'r sampl o gofnodion cleifion fod eu hurddas a'u parch yn cael eu hystyried. Gwelsom hefyd fod llenni preifatrwydd yn cael eu defnyddio o gwmpas y gwelyau archwilio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan oeddent yn cael triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau a oedd ar gael ac unrhyw risgiau cysylltiedig, a gwybodaeth am y costau dan sylw; dywedodd un claf y canlynol yn yr holiaduron:

"Staff hyfryd, gofalgwr, o'r dechrau i'r diwedd. Wedi rhoi llawer o wybodaeth. Bob amser yn barod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Yn tawelu eich meddwl. Amgylchedd glân a chyfforddus. Gwych - byddwn yn ei argymhell yn fawr!"

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw ar wahân i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ynghylch cael cydsyniad dilys y cleifion. Wrth fynedfa'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr

cyntaf, roedd hysbysfwrdd yn dangos enwau'r staff a lluniau ohonynt. Hefyd, roedd rhagor o wybodaeth am y staff ar wefan y clinig¹.

Dangosodd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad eu bod yn cael gwybodaeth dda am eu gofal, a oedd yn hawdd ei deall ac yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir fel eu bod yn gallu gwneud y penderfyniad gorau iddyn nhw. Yn y drafodaeth gychwynnol, roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am oblygiadau cyfreithiol, gwasanaethau cwnsela, gweithdrefnau'r clinig a'r driniaeth a oedd ar gael. Yn yr ail ymweliad dangosir y broses gydsynio ac fe'i heglurir i'r cleifion; yna gallant fynd â'r ffurflenni adref gyda nhw i'w cwblhau. Hefyd, rhoddwyd dolenni i dudalennau gwe annibynnol a allai helpu'r cleifion i ddeall y broses.

Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cleifion fel arfer yn atgyfeirio eu hunain. Yn dilyn yr ymweliad cychwynnol, bydd y clinig yn ysgrifennu at feddyg teulu'r claf er mwyn gweld a oes unrhyw broblemau a allai effeithio ar y driniaeth neu les y plentyn; caiff y meddyg teulu fis i ymateb. Hefyd, cadarnhaodd y staff, petai unrhyw bryderon eraill, megis diabetes, y byddai'r tîm diabetes yn y bwrdd iechyd yn cael gwybod.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cleifion yn cael rhestr brisiau yn yr ymgynghoriad cychwynnol ac yn yr ymweliad cyntaf ar gyfer triniaeth / cydsynio. Mewn cyfarfodydd cynllunio triniaeth gyda'r claf roedd bil manwl yn dangos yr holl gostau cyn i'r driniaeth ddechrau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y taflenni ac ar y wefan ar gael yn Saesneg yn unig. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'². Roedd gwasanaeth cyfieithu Language Direct³ ar gael i gleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Dylid gwneud ymdrech hefyd i ddarparu gwybodaeth mewn

¹ <https://crgw.co.uk/>

² Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

³ <https://www.languagedirect.org/>

ieithoedd a fformatau eraill, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r clinig.

Nid oedd dolen sain ar gael er mwyn helpu'r cleifion hynny a oedd yn drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff yn y clinig. Fodd bynnag, archebwyd un yn ystod ein hymweliad â'r clinig. Gwelsom fod arwyddion darluniadol yn cael eu harddangos er mwyn helpu cleifion i ddod o hyd i lwybr dianc mewn argyfwng pe bai tân.

Cynllunio a darparu gofal

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd unrhyw gleifion yn y clinig ar ddiwrnod ein harolygiad. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw mai prin y byddai oedi cyn gweld cleifion yn y clinig, ond petai hynny'n digwydd byddent yn cael gwybod am hynny. O ystyried faint o gleifion mae'r clinig wedi'u gweld, a'r staff sydd ar gael, roedd mwy na digon o staff i ddarparu gwasanaeth diogel a diwallu anghenion y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig wedi bod ar agor ers llai na blwyddyn ac mae wedi'i leoli mewn adeilad deulawr modern. Roedd manau parcio y tu allan i'r adeilad, gan gynnwys lle parcio penodol i bobl anabl. Roedd gan fynedfa'r llawr gwaelod ddrws llydan â botwm hygyrchedd fel bod modd agor y drws yn awtomatig o'r tu mewn a'r tu allan. Ar adeg yr arolygiad nid oedd y botymau hyn yn gweithio, gan olygu nad oedd y rheini a oedd angen cymorth gyda'r drws yn gallu dod i mewn i'r adeilad yn hawdd.

Roedd darlithfa fawr ac ystafell ymgynghori wag ar y llawr gwaelod. Cawsom wybod y byddai'r ystafell hon yn cael ei defnyddio ar gyfer cleifion na allent ddefnyddio'r grisiau, gan nad oedd modd cyrraedd y llawr cyntaf mewn lifft. Roedd y llawr cyntaf yn cynnwys nifer o ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth â chyfarpar. Roedd hefyd ystafelloedd ymgynghori gwag a labordy nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r clinig sicrhau bod y gwaith trwsio angenrheidiol yn cael ei wneud i'r botymau hygyrchedd wrth ddrws y fynedfa flaen.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddent yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarperir

yn y clinig. Yn y dderbynfa roedd hysbysiad yn egluro wrth y cleifion sut i wneud cwyn, a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol. Hefyd, roedd y broses gwyno wedi'i disgrifio yn y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion ac ar wefan y clinig. Hefyd, roedd poster gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol⁴ yn egluro sut i gysylltu ag ef os oedd angen.

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw gwynion yng nghling Abertawe. Petai unrhyw gwynion wedi bod byddent wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd clinigol. Petai aelod penodol o staff wedi'i grybwyll, byddai hyn wedi'i grynhoi yn y cyfarfod hwn.

Cafwyd adborth ar y clinig yn dilyn triniaeth yng nghlinig Llantrisant. Lluniwyd y canlyniadau a chyflwynwyd adroddiad arnynt yn y cyfarfod clinigol. Ar hyn o bryd, ni roddwyd ystyriaeth ar yr holiaduron i glinig Abertawe. Y rheswm dros hyn oedd bod mwyafrif y triniaethau ac, o ganlyniad, y cwestiynau a ofynnwyd, yn cael eu cynnal yn Llantrisant. Dywedodd y clinig y byddai'n ystyried gofyn am adborth ar wahân, yn dibynnu ar ble y cafodd y claf yr ymgynghoriad cychwynol, yn y dyfodol.

⁴ <https://www.hfea.gov.uk/>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd trefniadau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol ar gyfer archwilio'r cyfarpar a ddefnyddir.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael er mwyn sicrhau bod y staff yn cael arweiniad ar y camau cywir i'w cymryd.

Roedd y cofnodion a welwyd o safon dda.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y clinig a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig. Gwelsom fod y clinig mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roedd gan y clinig bolisi rheoli risg. Roedd nifer o gofrestrau risg ar waith, a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd y cofrestrau risg yn cynnwys diogelwch tân, labordy, clefyd y lleng filwyr ac asesiadau clinigol. Roedd proses siart llif hefyd ar gyfer rheoli risg.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon sylweddol gan y cleifion ynghylch glendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, yn eu barn nhw.

Amlinellodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yr amserlenni glanhau a oedd ar waith yn y clinig. Gwelsom gopïau o'r contract cyfredol ar gyfer casglu gwastraff clinigol o'r safle. Hefyd, gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn man diogel nes iddo gael ei gasglu. Roedd offer miniog yn cael ei ddefnyddio,

ond nid canwlâu mewnwythiennol⁵, ac roedd biniau ar gael i roi offer miniog ynddynt yn ddiogel. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o anafiadau (staff a chleifion) a chroes-heintio gan offer miniog sydd wedi cael ei ddefnyddio.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio. Roedd y cyfleusterau hylendid dwylo a oedd ar gael yn briodol ac yn ddigonol i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd hyn yn cynnwys poster yn nodi deg cam hylendid dwylo ar y waliau uwchben y sinciau. Cawsom wybod bod unrhyw gleifion heintus yn cael eu hatgyfeirio at safle Llantrisant. Mae'n bwysig golchi dwylo'n effeithiol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd y peiriannau sganio yn cael eu dihalogi, gan ddefnyddio system ddihalogi deiran ar gyfer dyfeisiau meddygol heb lwmen⁶, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr. Roedd y system yn cynnwys tri weip a oedd, yn eu trefn, yn cyflawni camau'r weithdrefn ddihalogi. Roedd hyn yn golygu bod dyfeisiau'n cael eu dihalogi'n effeithiol ac, felly, yn hybu camau i atal a rheoli heintiau yn effeithiol.

Ystyriwyd bod y broses o reoli heintiau yn dda ac roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar gael. Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd o'r prosesau rheoli heintiau a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar reoli'r meddyginiaethau a ddefnyddir yn y clinig. Roedd yn cynnwys cyfeiriad at gynllun cerdyn melyn MHRA.⁷ Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y broses o reoli meddyginiaethau yn cael ei hadolygu gan fferylllydd bob blwyddyn.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu defnyddio yn y clinig. Roedd y meddyginiaethau a gadwyd ar y safle yn cael eu storio'n ddiogel a dan glo mewn

⁵ Techneg lle caiff canwla ei roi mewn gwythien er mwyn cael mynediad gwythiennol yw canwleiddio mewnwythiennol. Drwy gael mynediad gwythiennol gellir cymryd samplau gwaed, yn ogystal â rhoi hylifau, meddyginiaethau, maeth parenterol, cemotherapi, a chynhyrchion gwaed.

⁶ <http://www.amityinternational.com/wp-content/uploads/2018/11/3-step-solution-brochure.pdf>

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/>

cwprdd gyda'r allwedd iddo yn cael ei gadw mewn sêff ar gyfer allweddi. Swm bach iawn o feddyginiaethau a ddefnyddiwyd yn y clinig

Cadwyd cofnodion o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion ac roeddent o safon dda. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi ynghylch unrhyw alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u llesiant cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/rhoi fel rhan o'r gofal a'r driniaeth a gânt. Roedd yr holl feddyginiaethau ar bresgripsiwn yn cael eu sganio i mewn i nodiadau'r cleifion ar ffurf PDF⁸.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Y Rheolwr Cofrestredig oedd y prif arweinydd diogelu, gyda'r Embryolegydd Ymgynghorol yn cymryd yr awenau pan fyddai'n absennol. Roedd y ddau wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel tri a oedd yn briodol i'r rôl.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd a thimau diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol i'w swyddi. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chodi materion diogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom y contractau gwasanaeth ar gyfer y peiriannau sganio uwchsain a ddefnyddir yn y clinig at ddibenion diagnostig. Roedd y ddogfennaeth yn dangos bod y dyfeisiau wedi cael eu gwasanaethu gan y gweithgynhyrchwr ac wedi bod yn destun profion diogelwch yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y peiriannau sganio yn rhoi darlenniadau cywir i'r defnyddiwr.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

⁸ Math o ffeil a ddefnyddir i gyflwyno a chyfnewid dogfennau mewn ffordd ddibynadwy yw PDF, a hynny'n annibynnol ar feddalwedd, caledwedd, neu system weithredu.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod archwiliadau yn cael eu cynnal i fonitro gofal y cleifion, gan gynnwys archwiliadau cadw cofnodion. Roedd y staff yn ymwybodol o'r canllawiau clinigol a oedd yn gysylltiedig â'u maes ymarfer er mwyn sicrhau bod y gofal a roddwyd ganddynt yn ddiogel ac yn glinigol effeithiol.

Rheoli cofnodion

Roedd y sampl o gofnodion a welwyd gennym yn dangos eu bod yn cael eu cadw i safon dda, gyda'r cofnodion yn cael eu cadw mewn trefn gronolegol. Roedd y protocolau ar gyfer triniaethau a welwyd gennym yn egluro'r driniaeth ofynnol a'r meddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn. Roedd hyn yn cynnwys caniatáu i'r cleifion ystyried ymhellach p'un a oeddent am barhau â'u triniaeth ai peidio.

Dangosai'r cofnodion a welwyd fod pob penderfyniad yn cael ei drafod. Roedd y cleifion yn penderfynu bwrw ymlaen yn dilyn mewnbwn gan y tîm proffesiynol dan sylw. Roedd cofnodion ar gael yn hawdd i'w gweld yn dilyn y lefel gywir o fynediad. Câi nodiadau papur eu sganio i mewn i'r system cyn eu dinistrio.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur rheoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng y rheolwyr a'r staff yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau y rhoddid pwyslais ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy raglen archwilio dreigl a'r strwythur llywodraethu sefydledig. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o staff a enwebwyd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwyllo a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd. Gwnaethant hefyd gadarnhau eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu rolau.

Roedd y clinig wrthi'n newid yr unigolyn cyfrifol fel bod y rheolwr cofrestredig yn cyflawni'r ddwy rôl. Cawsom wybod bod y rheolwr cofrestredig wedi bwriadu trosglwyddo'r rôl honno i reolwr y practis. Fodd bynnag, ni wnaed hyn oherwydd cyfnod mamolaeth. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithio yn y clinig yn rheolaidd ac wrth law i gefnogi'r staff a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Nodwyd tystiolaeth o gyfarfodydd rheolaidd rhwng y clinig a'r prif safle. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys penaethiaid adrannau, y tîm archwilio a phob cyfarfod staff. Fel rheol, trefnir y cyfarfodydd ar ffurf Skype, sef system delathrebu

sy'n arbenigo mewn darparu sgysiau fideo a galwadau llais rhwng cyfrifiaduron er mwyn galluogi pawb i gymryd rhan heb orfod teithio.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau sylweddol a rhannu gwersi o'r rhain er mwyn hybu diogelwch a llesiant cleifion. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ac roedd y canlyniadau a'r gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu â'r staff i gyd.

Cwblhawyd adroddiadau diffyg cydymffurfio lle gwnaed mân wallau, ac adolygwyd y rhain mewn cyfarfodydd penaethiaid adran misol. Mae'r gwaith adolygu hwn yn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r camau gweithredu a'u rhannu â'r tîm perthnasol. Yn achos digwyddiadau mawr megis digwyddiadau difrifol meddygol, rhannwyd y rhain â'r rheolwr cofrestredig. Adroddwyd ar unrhyw ddigwyddiadau difrifol a oedd yn ymwneud â'r HFEA drwy'r Embryolegydd Ymgynghorol. Ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn y clinig hwn

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a arolygwyd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd y clinig hefyd yn cadw matrices hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff fel bod modd i unrhyw un nad oedd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf gael ei nodi'n hawdd.

Nid oedd unrhyw aelod o'r staff yn y clinig wedi'i gyflogi am 12 mis ar adeg yr arolygiad ac, felly, nid oedd unrhyw un wedi cael arfarniad blynyddol eto. Pan fydd angen cynnal arfarniadau, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y bydd arfarniadau o'r staff nyrsio yn cael eu cwblhau gan y nyrs arweiniol ac y bydd arfarniadau o'r staff gweinyddol yn cael eu cwblhau gan reolwr y practis.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod ein harolygiad i gyd yn gallu disgrifio eu rolau a sut roeddent yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y clinig.

Ni chodwyd unrhyw fater ynghylch rotâu staff na'r gymysgedd sgiliau yn y clinig. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu ymlaen llaw ac roedd y rota yn cael ei staffio'n briodol. Roedd gan y clinig hefyd hyblygrwydd staff o Abertawe yn gweithio yn Llantrisant, a'r gwrthwyneb, er mwyn sicrhau bod digon o staff a sgiliau'n cael eu cynnal.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau. Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a nodwyd bod y clinig wedi dilyn ei weithdrefnau ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd. Roedd y rhain yn cynnwys dau eirda a chyfeirio at gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer nyrsys er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cofrestru. Gwelsom hefyd dystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.

Nodwyd bod gan y clinig bolisi sefydlu a bod y staff yn y clinig wedi bod yn destun rhaglen sefydlu. Yn ogystal â rhestr wirio sefydlu ar gyfer gweithio yn y clinig yn gyffredinol, roedd hefyd raglenni sefydlu penodol ar gyfer nyrsys cymwysedig ac un ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd y rhaglenni sefydlu hyn yn cynnwys asesu gwahanol agweddau ar fframweithiau ffrwythlondeb a gofal a chymhwysedd yr oedd yn rhaid i diwtor (athro neu hyfforddwr) eu llofnodi.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Atgenhedlu a Gynecoleg Cymru, Abertawe

Dyddiad arolygu: 6 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|---------------------|---------------------------------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Rhaid i'r clinig sicrhau bod y gwaith trwsio angenrheidiol yn cael ei wneud i'r botymau hygyrchedd wrth ddrws y fynedfa flaen. | 2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol | Mae cloch wedi'i gosod ar y drws gydag arwydd yn gofyn i gleientiaid ei phwyso am gymorth i ddod i mewn i'r uned fel y gall y clinig fod yn ymwybodol o'r bobl y gall fod angen help arnynt i ddod i mewn i'r clinig a hefyd y rhai y gall fod angen help arnynt i ddringo'r grisiau i'r dderbynfa | Amanda OLeary | Eisoes wedi'i wneud ac ar waith |
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon. | | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--------------------|-----------------------------|---------------------|----------|
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon. | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Amanda Oleary

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig y Clinig

Dyddiad: 19/09/19